

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed (349)

BEIRNIADAETH MEIRION WYNN JONES

Saunders Valentine

Y cystadleuydd yma oedd yr unig un eleni i gynnig darn corawl. Braf oedd gweld yn syth taw person corawl go iawn oedd y tu ôl i'r *motet* SATB, '*O Ddirgelwch Mawr*'. Mae'r dewis o eiriau yn ddiddorol ynddo'i hun, hynny yw, cyfieithiad o'r geiriau Lladin Nadoligaidd, '*O magnum mysterium et admirabile sacramentum*' – geiriau sy'n gyfarwydd i ni trwy osodiadau corawl eiconig William Byrd, Francis Poulenc a Morten Lauridsen. Mae *Saunders Valentine* yn gosod ei hun mewn traddodiad – traddodiad o ganu corawl cysegredig sy'n mynd yn ôl canrifoedd, heibio cyfnod y Dadeni, hyd yn oed.

Mae iaith gerddorol y cyfansoddwr yma yn un traddodiadol, deiatonig, ac mae'r harmoni yn perthyn i'r cyfnod c. 1870-1920. Nid oes unrhywbeth o'i le gyda hwn, ac ar y cyfan, mae'r ysgrifennu'n gyson o ran arddull (eithriadau i mi yw bb. 42-47, 75-80 a b. 93).

Canadwy yw nifer fawr o'r llinellau unigol, ac mae dilynnianau megis bb. 16-28 yn effeithiol, gyda'r gwrthbwynt yn llifo'n rhwydd a naturiol. Mae ailadrodd y geiriau, '*yr Arglwydd*' yn bb. 36-37, gyda newid sydyn yn yr harmoni yn drawiadol, ond mae angen ailfeddwl y rhannau lleisiol yn y bar sy'n dilyn, er mwyn cael llinellau llai lletchwith i ganu.

Mae'r adran newydd sy'n dechrau yn b. 49 yn gweithio'n dda, gyda'r cyferbyniad llwyr – y lleisiau uwch yn unig yn canu, y gwead homoffonig, a'r newid i'r cywair llon. Mae tuedd weithiau i osod rhan y soprano yn rhy uchel (bb. 41, 61-62, 74 a 102-104, er enghraifft) – anaml bydd y nodau yma yn swnio'n hyfryd. Yn dilyn y pwynt-

pedal effeithiol rhwng bb. 102-106, byddai'n braf cael diwedd glo llai rhagweladwy i gloi'r *motet*.

Mae'r unigolyn yma â'r potensial i ddatblygu'n gyfansoddwr corawl ardderchog.